



Cyswllt Ffermio – gwybodaeth ddiweddaraf

Yn y rhifyn hwn:

CALU yn y sioeau	2
Cynhaeaf yn Henfaes	2
Pytiau newyddion	3
Gwenyn Prysus CALU	3
Sut i gymryd rhan	3
Digwyddiadau i Ddod	4
Ffeithiau am CALU	4

Mae'n bleser mawr gan bartneriaeth CALU roi gwybod am ei llwyddiant yn dal gafael ar y contract i drosglwyddo gwybodaeth trwy Raglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio.

Mae'r cyllid yn sicrhau ein gwasanaeth am y tair blynedd nesaf ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chynhyrchwyr, tyfwrwr ac ymchwilwyr ym meysydd garddwriaeth, bio-ynni, ffermio tir âr, cnydau nad ydynt yn fwyd a da byw amgen.

Rhan fechan o wasanaeth newydd Cyswllt Ffermio – a gafodd ei lansio'n swyddogol gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones, ar 10 Gorffennaf - yw cyfraniad CALU. Mae elfennau eraill y

gwasanaeth yn cynnwys:

Rhaglenni Datblygu Trosglwyddo Gwybodaeth ar gyfer y sectorau Organig, Cig Coch a Llaeth; seminarau Cynllunio; seminarau ar Arallgyfeirio; Agrisgôp; hyfforddiant Amaeth-amgylcheddol.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, darperir gwasanaethau ychwanegol, yn cynnwys hyfforddiant a mentora unigol.

Mae gan CALU ddau swyddog project llawn-amser yn gweithio ar y Rhaglen Rheolaeth Tir, ynghyd â chefnogaeth gan ein sefydliadau partner: ADAS, Prifysgol Bangor, Coed Cymru, Coleg Llysfasi a Choleg Garddwriaeth Cymru.

“Mae sicrhau'r cyllid i gyflwyno'r Rhaglen yma yn rhoi cyfle arbennig i ni lunio rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau,” meddai Rheolwr CALU, Kerrin Buckler. “Ar hyn o bryd mae'r bartneriaeth wrthi'n gwneud cynlluniau ar gyfer cyfres gyffrous a llawn gwybodaeth o ddigwyddiadau a chyhoeddiadau. Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd gan ffermwyr a thyfwrwr am faterion a ddylai gael sylw yn ein digwyddiadau, erthyglau a thafenni gwybodaeth,”

Am fwy o wybodaeth am weithgareddau CALU, ewch i'r wefan: www.calu.bangor.ac.uk

CALU's subject areas:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd

Ffermydd datblygu CALU

Fel rhan o wasanaeth newydd Cyswllt Ffermio, mae CALU wedi enwebu tair canolfan fel Ffermydd Datblygu. Y rhain yw:

Plas Gogerddan – ar gyfer bio-ynni ac âr
Coleg Garddwriaeth Cymru – ar gyfer garddwriaeth
Canolfan Ymchwil Henfaes – pob sector

Mae'r holl Ffermydd Datblygu'n gysylltiedig â chanolfannau blaenllaw ar gyfer ymchwil ac addysg yn y gwahanol sectorau. Mae hyn yn rhoi cyfle delfrydol i rannu darganfyddiadau ymchwil a thechnoleg newydd gyda'r cymunedau sy'n defnyddio tir.

Cynhelir y digwyddiad Fferm Ddatblygu cyntaf yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes ar 6 Awst. Bydd y digwyddiad “Priddoedd a

Grawnfwydydd” yn edrych ar yr amrywiaeth eang o gnydau grawnfwyd sy'n addas i'w cynhyrchu yng Nghymru, yn arbennig mewn perthynas â phriddoedd, safleoedd a marchnadoedd. Byddwn wedyn yn canolbwyntio ar gnydau mwy newydd sy'n cael eu datblygu fel cnydau ychwanegu gwerth yng Nghymru.

Mae digwyddiadau i'w cynnal yn ddiweddarach eleni'n cynnwys digwyddiad ar ynni adnewyddadwy ym Mhlas Gogerddan fis Hydref a digwyddiad ar arddwriaeth gynaliadwy yng Ngholeg Garddwriaeth Cymru.

CALU yn y sioeau

Wrth i'r tymor sioeau ddechrau, bydd CALU yn teithio ymhell ac agos i hyrwyddo'r amrywiaeth mentrau sy'n addas ar gyfer tir yng Nghymru. Byddwn yn canolbwyntio ar: garddwriaeth, da byw amgen, cynydu nad ydynt yn rhai bwyd, cynydu â'r bio-ynni.

Sioe gyntaf a mwyaf y flwyddyn fydd Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Yno, o ddydd Llun 21 tan ddydd lau 24 Gorffennaf bydd gan CALU babell llawn gwybo-daeth i addysgu a diddori.

Bydd CALU hefyd yn Sioe Môn ar 12 a 13 Awst. Mae croeso i chi ddod i weld ein harddangosfa o nwyddau yn deillio o waith CALU. Eleni hefyd bydd gennym arddangosfa o Ganolfan Organig Cymru yn y babell, tra'r tu allan bydd ein cwch gwenyn, gwely helyg a pherlysiâu'n cael eu harddangos.

Am y tro cyntaf eleni bydd CALU yn sioe Bro Morgannwg ar 20 Awst. Cynhelir y sioe hon ar safle Parc

Castell Fonmon ger Maes Awyr Caerdydd. Rydym yn gobeithio y cawn ddiwrnod prysur gydag digonedd o ddiddordeb gan dyfwr a chynhyrchwyr Cymreig.

Yn ddiweddarach yr wythnos honno (23 Awst) byddwn, eto am y tro cyntaf, yn Sioe Amaethyddol Talybont a Gogledd Ceredigion yng ngheau'r Black Lion, Talybont.

Cynhelir sioe Meirionnydd yn Y Bala eleni ar 27 Awst. Cafodd y sioe hon ddiwrnod godidog y llynedd a gobeithiwn y bydd yr haul yn gwenu eleni eto.

Dod i'n gweld yn y sioeau yw un o'r ffyrdd hawsaf o roi gwybod i ni beth yr hoffech ein gweld yn ei wneud i'ch sector. Lle bynnag rydych yn byw yng Nghymru mae digon o gyfle i chi ymweld â stondin CALU ac edrychwn ymlaen at eich gweld.

OEDDECH CHI'N

GWYBOD ...

Bod yna 16 rhywogaeth o bryfed genwair ym Mhrydain. Maent i gyd yn chwarae rhan mewn prosesau pridd.

(Ffynhonnell: RHS)

Cynhaeaf yn Henfaes

Mae CALU yn tyfu amrywiaeth o gnydau yn Henfaes i'w harddangos ac i fynd â hwy i sioeau. Mae cynaeafu'r cnydau bob amser yn weithgaredd poblogaidd yn Henfaes.

Ym Mehefin roedd y cynnyrch cyntaf yn barod i'w hel. Y cyntaf oedd artisiogau glôb gyda courgettes gwyrdd a dyfwyd yn y caeau yn dynn wrth eu sodlau.

Aelod o deulu'r asgell yw'r artisiog, ac maent yn perthyn yn agos i'r cardŵn. Mae artisiogau'n ffynhonnell ragorol o botasiwm a magnesiwm ac o asid ffolig. Maent yn blanhigion lluosflwydd a gallant roi cnwd am hyd at ddeng mlynedd.

Yr anfantais yw eu bod angen cryn dipyn o le (tua 1m² y planhigion). Nid ydynt yn arbennig o wydn ac mae angen eu gwarchod rhag rhew mewn ardaloedd mewndirol. Nid yw plâu ac afiechydon yn effeithio llawer arnynt, ac eithrio malwod sy'n mwynhau planhigion artisiog ifanc.

Roedd bysedd gwyrdd bychain y courgettes a dyfwyd allan (Tempra F1) yn boblogaidd iawn ac fe wnaethant ddiflanu'n fuan. Yn fuan ar ôl cynaeafu'r rhain roedd y courgettes melyn Floridor F1, a dyfwyd i mewn, yn barod. Mae'r planhigion grymus yma'n cynhyrchu ffrwythau crwn, aur-felyn deniadol gydag ansawdd fenynaid iddynt.

Mae angen cynaeafu'r ffrwythau'n rheolaidd gan eu bod orau yn ifanc (er bod courgettes hŷn yn rhagorol ar gyfer eu stwffio).



Artisiogau newydd eu cynaeafu

Yn y tŷ gwydr mae'r blodau haul wedi bod yn gefndir lliwgar i'r ffa porffor a melyn. Mae'r amrywiaethau a ddewiswyd wedi ffynnu yn y compost arbennig ar gyfer pys a ffa a gafwyd gan Humax a chafwyd cnwd cyntaf toreithiog ganddynt i gyd.

Eleni fe wnaethom dyfu dau fath o ffa porffor: 'Purple Teepee' a 'Royalty'. I gyd-fynd â'r rhain fe wnaethom hefyd dyfu dau fath o ffa melyn: 'Mont d'Or Golden Butter' a 'Sungold'. Mae'r holl fathau a dyfwyd ar gael o gatalogau hadau da ac o ganolfannau garddio.



Ffa Teepee porffor

Pytiau newyddion

Cymrwch ofal gyda phelennau lladd malwod

Atgoffir ffermwyr a thyfwyr i drin pelenni lladd malwod gyda'r un gofal ag unrhyw blaleiddiaid eraill. Bob blwyddyn ym Mhrydain defnyddir 10,000 tonnell o belenni lladd malwod. Oherwydd eu bod mor gyfleus mae'n hawdd anghofio pa mor wenwynig ydynt. Gall un belen lygru 10,000 litr o ddŵr gan ei wneud yn anaddas i'w yfed. Mae'r Metaldehyde Stewardship Group yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio pelenni lladd malwod a hybu dulliau diogel.



Bananas a chiwcymbrs cam

Fel rheol, croesewir unrhyw gynlluniau i leihau biwrocraetaeth Brwsel. Fodd bynnag, mae llawer o dyfwyr yn anhapus gyda chynlluniau'r UE i leihau'r rheoliadau caeth ar ffrwythau a llysiau. Mae rhai tyfwyr yn ofni y bydd yn arwain at ddryswch yn y marchnadoedd. Ar

hyn o bryd mae'r gofynion yn golygu fod pob prynwr yn gwybod yn union beth y dylent ei ddisgwyl oddi wrth gynnyrch Safon I. Yr ofn yw y byddai llacio'r rheoliadau'n arwain at ddiffyg eglurder a hefyd y posibilrwydd o gynnyrch o ansawdd is yn llygru delwedd sector gyfan.

OEDDECH CHI'N

GWYBOD ...

Dim ond 10% o holl nythfeydd gwenyn Lloegr a Chymru sy'n cael eu harchwilio gan archwilwyr gwenyn

(Ffynhonnell: National Bee Unit)

Gwenyn Prysor CALU

Ddechrau Mai, gosodwyd dau gwch gwenyn gydag abwyd mewn cornel gysgodol yn Henfaes yn y gobaith o ddenu haid o weny. Wedi mis o ddisgwyl nid oedd golwg o haid o gwbl. Ond, ar 19 Mehefin, cyrhaeddodd nythfa o weny Henfaes o'r diwedd, sef haid oedd wedi cael ei dal gan Pete Barrar o'r CBKA yn ei ardd yn Nyffryn Conwy a'i chludo'n ddiogel i Henfaes.

Ar ôl cyrraedd yn y bore bach,

cafodd y nythfa dair ffrâm ei bwydo â siwgr a thoddiant dŵr a'i gadael mewn heddchwch i ymgartrefu. Ar ôl dod i adnabod eu cynefin dechreuodd y gwenyn gweithgar ddod â phaill i'r cwch.

Yn yr archwiliad cyntaf wythnos ar ôl iddynt gyrraedd gwelwyd fframiau gyda larfae, wyau a storffeydd ac roeddem hyd yn oed yn ddigon ffodus i fedru gweld y frenhines.

Roedd tymer y gwenyn cystal ag y gallai unrhyw wenywr ei ddymuno. Llenwyd y cyflenwad bwyd ar ôl yr archwiliad cyntaf i sicrhau bod bwyd digonol ar gael iddynt.

Gyda'r llecynnau coedwig o amgylch, perllan Henfaes gerllaw, a phlanhigion lafant a digon o ffrwythau a llysiau eraill heb fod ymhell, rydym yn edrych ymlaen at dymor cynaeafu'r mêl!



Cwch gwenyn CALU yn cyrraedd

Sut i gymryd rhan

Gweithdai ac arddangosiadau CALU

Byddwn yn parhau â'n gweithdai amrywiol ac arddangosiadau ar ffermydd. Rhowch wybod i ni os oes unrhyw ddigwyddiad neu bwnc yr hoffech i CALU roi sylw iddo. Yr un modd, rhowch wybod i ni os ydych yn teimlo bod unrhyw beth yn eich ferm neu fusnes a fyddai'n bwnc

diddorol ar gyfer digwyddiad.

Grwpiau trafod

Mae grwpiau trafod CALU yn ffordd anffurfiol o gysylltu â phobl eraill sy'n gweithio yn eich sector. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, rydym wedi cefnogi amrywiaeth eang o ddiddordebau drwy'r gwasanaeth grwpiau trafod, yn cynnwys geifr llaeth, cadw gwenyn, tyfu llus, tyfu

tatws a chynhyrchu cnydau â'r. Mae gennym gyllideb fechan ar gyfer y grwpiau trafod i dalu am siaradwyr arbenigol, llogi manau cyfarfod a chael lluniaeth ysgafn. Bydd staff CALU hefyd yn helpu gyda threfnu cyfarfodydd, cael hyd i siaradwyr neu gysylltu â sefydliadau hyfforddi. Os hoffech chi sefydlu grŵp trafod – rhowch wybod i ni.

CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes
Prifysgol Bangor
Abergwyngregyn
LLANFAIRFECHAN
LL33 0LB
Ffôn: 01248 680 450
Ffacs: 01248 681730
E-bost: calu@bangor.ac.uk

www.calu.bangor.ac.uk

Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



Digwyddiadau i Ddod

Mercher, 20 Awst — Sioe Amaethyddol, Bro Morgannwg

Sadwrn 23 Awst — Sioe Amaethyddol Tal-y-Bont, Aberystwyth

Mercher 27 Awst — Sioe Amaethyddol Meirionnydd, Y Bala

Iau 28 Awst — Sioe Amaethyddol Trefynwy

Hydref 7 – Ynni Adnewyddadwy – digwyddiad Datblygu Fferm, IBERS, Plas Gogerddan

Hydref (dyddiad i'w bennu) – Garddwriaeth Gynaliadwy, digwyddiad Datblygu Fferm, Coleg Garddwriaeth

1 a 2 Rhagfyr — Ffair Aeaf y Sioe Frenhinol, Llanelwedd

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth am unrhyw rai o ddi-
wyddiadau CALU.

Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd


Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhwydwaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

- Dyddiau agored
- Arddangosiadau
- Tafenni technegol
- Dyddiau hyfforddi
- Erthyglau i'r wasg
- Tafenni gwybodaeth am gnydau
- Adroddiadau project
- Sgyrsiau
- Grwpiau cynhyrchwyr
- Sioeau amaethyddol
- Ilyfyrnau gwybodaeth

CALU PARTNER:

- Prifysgol Bangor
- Coleg Garddwriaeth Cymru
- ADAS Cymru
- Coed Cymru
- Coleg Llysfasi



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813